

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

5/11/15

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Dilys Evans, Dorothei Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Edith Roberts, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Islwyn Pritchard Jones, Alun Price

1. Estynnodd y Maer groeso i bawb, a rhoddodd adroddiad ar ei waith yn ystod y mis diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod a nifer fawr o feicwyr modur ar eu taith trwy ogledd Cymru i godi arian at Sul y Cofio. Talodd deyrnged i John Caradog Williams sydd wedi bod eleni eto yn glanhau a phaentio'r Gofeb Coffa. Gresyn iddo gael helynt gan swyddog wrth wneud y gwaith, ond ar ran trigolion Y Bala, mynegodd y Maer ddiolch a gwerthfawrogiad o'i waith gwirfoddol. Cytunodd J C Williams i gyflwyno'r dorch a sicrhawyd gan y Cyngorydd Dilwyn Morgan yn seremoni Sul y Cofio. Bydd y Maer yn cyflwyno torch ar ran Cyngor Tref Y Bala. Croesawyd PCSO Iwan Roberts i'r cyfarfod.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1/10/15.
5. Adroddiad y Clerc a materion yn codi o gofnodion Hydref sydd ddim ar yr Agenda:
 - i. Derbyniwyd cynnig o 7/12/15 fel dyddiad ar gyfer cyfarfod y Grŵp Busnesau i drafod camerâu cylch cyfyng, 7.30 yng Nghanolfan Henblas.
 - ii. Derbyniwyd adroddiad o'r Hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad 14/10/15
 - iii. Sbwriel ar lan Llyn Tegid, y Ro Wen a'r angen i docio gwrych wrth y mynediad anabl: er na chafwyd ymateb trwy lythyr, mae'r ardal yn glir o sbwriel erbyn hyn. Diolchwyd i'r Cyngorydd Dilwyn Morgan am wneud y gwaith o docio'r gwrych.
 - iv. Derbyniwyd neges o Gyngor Cymuned Llandderfel fod y Gweinidog Trafnidiaeth Edwina Hart yn cynnal trafodaethau parthed gwartheg yn croesi'r ffordd fawr.
 - v. Derbyniwyd ymateb i'r sylw am oryrru ar Stryd y Fron. Gan fod pryder yn parhau am ddiogelwch plant yn chwarae, derbyniwyd awgrym PCSO Iwan Roberts i gynnal cystadleuaeth llunio poster i ddisgyblion yr ysgolion cynradd. Gellid eu gosod ar ffordd Stryd y Fron ac mewn gwahanol fannau yn y dref lle mae plant yn debygol o fod yn chwarae a cheir yn teithio heibio. Cytunodd y Clerc i drafod gyda'r ysgolion cynradd.
 - vi. Mae Bwrdd Gwybodaeth y Domen yn cael ei thrwsio gan saer lleol.
 - vii. Trefniadau'r Nadolig: cytunwyd i ofyn i Evan Dobson am Dystysgrif ar gyfer y ffenest siop orau. Cytunwyd i gynnal Cinio Nadolig y Cyngorwyr yn dilyn cyfarfod 10/12/15.
 - viii. Adroddwyd fod Cymdeithas y Beiblau yn ail-ddylunio Bwrdd gwybodaeth Mari Jones. Cytunodd y Clerc i holi os ydyw'n bosib parcio yn y maes parcio newydd ar gyfer ymweld â mynwent Llanycil yn ystod tymor y gaeaf.

- ix. Ymatebodd Parc Cenedlaethol Eryri i'r ymholiad am y peiriant pres newydd wrth siop Spar gan fynegi bod y mater yn nwylo'r adran cydymffurfiaeth.

Adroddiad yr Heddlu: Mae ymgyrch ar hyn o bryd i leihau sbwriel yn y dref; mae goryrru hefyd o dan ystyriaeth ac mae'r cynllun Pub-watch wedi ail-gychwyn ar ei newydd wedd. Mae 5 plismon a 2 PCSO yn y Bala. Ni chafwyd trafferthion yn y dre adeg y ffair er bod pryder fod y toiledau ar y Grŵn wedi eu cau fin nos. Gofynnwyd i'r Clerc ohebu gyda Chyngor Gwynedd am hyn. Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith y cymdogion i sicrhau diogelwch a thaclusrwydd Y Domen. Diolchwyd i Iwan Roberts am ei bresenoldeb a'i waith.

- 6. Adroddiad y Cyngorydd Sir:** Dywedodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan fod pafin anwastad o flaen Swyddfa'r Post wedi derbyn sylw a bod ffosydd wedi eu glanhau.

Derbyniodd ateb gan y Gweinidog Trafnidiaeth Edwina Hart yn mynegi nad oedd hi yn caniatáu ar dir diogelwch i fws stopio wrth Ysgol Tŷ Tan Domen, ond mae'n bwriadu gwneud asesiad trylwyr o'r arosfannau bysiau sydd ar gael ar yr A494 yn Y Bala.

Mae'r broses o ddynodi Llwybr y Sgotwyr yn un cyhoeddus yn parhau, a chyfarwyddwyd y Clerc ar ran y Cyngor Tref i arwyddo'r ffurflenni a fydd yn symud y broses ymlaen i'r cam nesaf.

Cadarnhaodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan fod ymgyrch i leihau sbwriel yn y dref ac ychwanegodd fod pob man chwarae plant a phob maes chwaraeon yn awr yn ardaloedd lle mae cŵn yn waharddedig o dan ddeddf gwlad. Gall torri'r Ddeddf hon arwain at ddirwy o £1,000.

Mae'r Cyngorydd Dilwyn Morgan wedi cynnal dwy sesiwn yng Nghanolfan Henblas i gynorthwyo pobl i lenwi ffurflen Her Gwynedd.

- 7. Parcio:** Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod 12/10/15 ac mae'r argymhellion a wnaethpwyd wedi mynd i sylw cabinet Gwynedd.

Cytunwyd i symud ymlaen i godi ardoll leol ar barcio tymor hir.

8. Materion Cynllunio

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i waith yn Adeiladau'r Aran, ac i waith uwchraddio gorsaf telegyfathrebu bresennol yn y Parc Menter.

9. Materion Cyllid

i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

ii. Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc ac anfonebau'r mis:

a. ffi aelodaeth SLCC - rhannu gyda Llanuwchllyn (£51.50)

b. cynnal y Domen (£960)

iii. Cytunwyd i gyfrannu £840 tuag at weithgareddau lles a chynghori yn yr Henblas.

10. Gohebiaeth

Gwynedd:

i. Derbyniwyd llythyr ffurfiol am benderfyniad diweddar y cabinet ar addysg yn Y Bala.

ii. Nodwyd y gwahoddiad i lenwi'r biniau halen.

iii. Mater cyfrif y nifer sy'n cysgu ar y stryd – Clerc i ymateb.

iv. Nodwyd llythyr yn cyfeirio at leihad posib i'r gwasanaeth archifau.

Un Llais Cymru:

- i. Derbyniwyd rhestr o gyfleoedd hyfforddiant Tachwedd 2015.
- ii. Cytunodd y Clerc i fynegi teimladau'r Cynghorwyr am wasanaeth Un Llais Cymru.
- iii. Derbyniwyd agenda a chofnodion y Cyfarfod Ardal.

Arall:

Nodwyd derbyn:

- i. neges am bwysigrwydd llwybrau gan Ramblers Cymru
- ii. rhestr o dai a fflatiau yn rhydd yn Y Bala (Cartrefi Cymunedol)
- iii. neges am yr angen i drwsio peipen dŵr yn gollwng wrth Ganolfan Tegid; cyfarwyddwyd y Clerc i arwyddo'r ffurflenni yn caniatáu i'r gwaith gael ei wneud.
- iv. gwahoddiad i wasanaeth a seremoni Sul y Cofio (Y Lleng Brydeinig)

11. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr .

12. Asedau'r Cyngor – derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr ac fe gytunodd i wneud archwiliad pellach ym mis Chwefror.

13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref

Mae angen tocio rhai gwrychoedd wrth balmentydd; cytunodd y Clerc i ysgrifennu at y tiffeddianwyr.

Cytunwyd i anfon llythyr i fynegi siom fod y warden traffig heb ddangos goddefgarwech wrth Gynghorydd a oedd yn wirfoddol yn glanhau'r Gofeb Goffa yn barod at Sul y Cofio.

Cytunwyd i gyfarfod nesaf ar 10/12/15 am 6.30 pm yng Nghanolfan Henblas.

Amser gorffen: 9.00pm